Ysgol Gyfun Gŵyr
Gorau byw cyd-fyw

29 Awst 2020

Annwyl Riant / Ofalwr,

Gobeithio i chi a'ch plant fwynhau'r gwyliau a'ch bod yn barod am sialensiau cyfnod newydd yn ein hanes.

Wrth inni agosáu at ddechrau blwyddyn academaidd arall, hoffwn ddiolch i gymuned yr ysgol am ei chefnogaeth, yn enwedig dros y chwe mis diwethaf. Bydd teulu estynedig Ysgol Gyfun Gwyr, yn ddisgyblion, staff, rhieni a gofalwyr, yn parhau i gefnogi ein gilydd yn ystod blwyddyn ysgol 2020-21.

**Gwaith adeiladu**

Mae Kier Construction eisoes wedi trawsnewid tirwedd caeau chwarae'r Ysgol yn barod ar gyfer adeiladu'r MUGA newydd a gosod caeau 2G a 3G, cyfleusterau a fydd yn barod i'w defnyddio erbyn y Nadolig. Bydd y seiliau a'r fframwaith sylfaenol ar gyfer y bloc addysgu a'r ffreutur / cegin newydd mewn lle erbyn diwedd Medi. Edrychwn ymlaen yn fawr iawn i berchnogi'r adnoddau chwaraeon erbyn mis Ionawr ac i fanteisio ar y cyfleoedd gwych y bydd y cyfleusterau hyn yn eu cynnig i'n disgyblion

**Canlyniadau TGAU a Lefel A**

Diolch yn fawr iawn i chi a'ch plant am eich cydweithrediad wrth gasglu canlyniadau **Lefel A / UG** ar gyfer Blwyddyn 12 a 13 **Ddydd Iau 13 Awst**, a **TGAU** i Flwyddyn 11 ar **Ddydd Iau 20 Awst 2020**. Llwyddodd pob myfyriwr ym Mlwyddyn 13 i gyrraedd y nod ac i symud ymlaen i gyflogaeth neu brifysgol, ac mae tua 90 o Flwyddyn 11 yn bwriadu dychwelyd i'r Chweched, nifer iachus iawn.

**Pontio ac Anwytho**

Edrychwn ymlaen at groesawu **190** o ddisgyblion i **Flwyddyn 7**, a byddwn yn defnyddio'r ddau ddiwrnod cyntaf **(3ydd a 4ydd Medi)** i gyflwyno'r disgyblion i elfennau pwysicaf bywyd Ysgol Gyfun Gwyr, ac i ganiatáu iddynt fynychu rhai o'u gwersi ffurfiol cyntaf ar safle'r Ysgol.
Bydd myfyrwyr y **Chweched**, tua **180** ohonynt, hefyd yn ymuno a ni ar y safle ar **3 Medi a 4 Medi** – bydd hyn yn rhoi cyfle i ni brosesu eu dewisiadau ac i ddechrau ar eu cyrsiau newydd.

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk

Gwobr Cwricwlwm Ysgolion Schools Curriculum Award · Heartbeat Award Gwobr Curiad Calon · The Dyslexia Friendly School Standards · NPFA SportsMarc · Investors in People | Buddsoddwyr Mewn Pobl · We Are A... Fairtrade School Rydyn Ni'n Ysgol... Masnach Deg

Ysgol Gyfun Gŵyr
Gorau byw cyd-fyw

**Trefniadau ar gyfer Dechrau Tymor**
Rydym yn sylweddoli mai ein blaenoriaeth fel Ysgol yw ail-gysylltu a disgyblion mewn amgylchedd ystafell ddosbarth go iawn - dyma'r ffordd orau o bell ffordd i gefnogi anghenion bugeiliol ac academaidd ein plant. Bwriadwn liniaru unrhyw risgiau bydd yn deillio o hynny yng ngoleuni'r pandemig. **Bydd presenoldeb yn yr Ysgol yn orfodol i ddisgyblion o 14 Medi.**

Bydd **1 Medi** a **2 Medi** yn Ddiwrnodau Paratoi ar gyfer y Tymor Newydd. Bydd staff yr Ysgol yn derbyn hyfforddiant ac yn cael cyfle i ad-drefnu eu stafelloedd, a pharatoi adnoddau wrth wynebu heriau'r tymor newydd.

Rhagwelwn y bydd dychweliad Medi i'r ysgol ar gyfer disgyblion Ysgol Gyfun Gwyr fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| **Dydd Iau 3 Medi** | **Blwyddyn 7 a Blynyddoedd 12 + 13** - Sefydlu |
| **Dydd Gwener 4 Medi** | **Blwyddyn 7 a Blynyddoedd 12 + 13** - Sefydlu |
| **Dydd Llun 7 Medi** | **Blwyddyn 11** yn ymuno a Blynyddoedd 7, 12, 13 |
| **Dydd Mawrth 8 Medi** | **Blwyddyn 10** yn ymuno a Blynyddoedd 7, 11, 12, 13 |
| **Dydd Mercher 9 Medi** | **Blwyddyn 9** yn ymuno a Blynyddoedd 7, 10, 11, 12, 13 |
| **Dydd Iau 10 Medi** | **Blwyddyn 8** yn ymuno a Blynyddoedd 7, 9, 10, 11, 12, 13 (Pawb nol yn Ysgol) |

Mae trefn **7 Medi – 10 Medi** yn wahanol i'r hyn a rannwyd gyda rhieni yng Ngorffennaf, ac yn adlewyrchu awydd yr Ysgol i anwytho a sefydlu pob Blwyddyn yn ei thro
Am wythnosau cyntaf y tymor, rydym wedi clustnodi ardal yn yr Ysgol i **Flwyddyn 7** (Y Dyniaethau), **Blwyddyn 8** (Adran Saesneg) a **Blwyddyn 9** (Adran Gymraeg). Cynhelir holl wersi'r blynyddoedd hyn yn yr ardaloedd hyn o'r Ysgol gydol y dydd, a bydd disgwyl i'r disgyblion aros yn yr ardaloedd hyn a'r cyffiniau wedi cyrraedd y safle. Bydd y disgyblion hyn yn symud i'w gwers nesaf o fewn y parth gan ddilyn trefn unffordd.

Sylweddolwn y bydd sefydlu tair canolfan i **Flwyddyn 7, 8,** a **9** yn cyfyngu ar eu profiadau yn y tymor byr, ond anelwn i gynnal a datblygu gwersi hwylus heriol a fydd yn galluogi'r plant i fwynhau ac ymestyn eu gorwelion yng ngoleuni'r Cwricwlwm Newydd sydd ar y gorwel.

Bydd gwersi **Blwyddyn 10, Blwyddyn 11, Blwyddyn 12** a **Blwyddyn 13** yn cael eu cynnal ar draws yr Ysgol. Bydd hyn yn caniatáu iddynt gael defnydd o offer arbenigol yn ôl y gofyn.

**Ffreutur**

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk

Bydd y **Ffreutur ar gau** am y pythefnos cyntaf. Bydd disgwyl i bob plentyn ddod a phecyn bwyd a digon o ddiod ar gyfer y diwrnod cyfan gyda nhw yn feunyddiol. Ni fydd y ffynhonnau dwr ar gael i ddisgyblion.
Oherwydd mai arian parod a ddefnyddir yn ein Ffreutur ni, rydym yn ystyried newid ein system i alluogi rhieni a disgyblion i dalu ac archebu bwyd o hirbell, heb fod arian parod yn cael ei ddefnyddio. Mwy o fanylion i ddilyn.

**Lleihau risg ar y safle**

Wrth ddychwelyd i'r safle, byddwn yn parhau i weithredu nifer o'r arferion sydd yn mynd i leihau'r risg o berygl Covid - 19

- Neb a symptomau (tymheredd uchel / peswch newydd / newid mewn synnwyr arogli neu flasu) i ddod ar gyfyl yr Ysgol. Gofynnir i ddisgyblion sy'n arddangos symptomau i aros gartref a chysylltu â'r Bwrdd Iechyd am Brawf Covid.
- Golchi dwylo yn fynych
- Gweithredu camau hylendid os yn tisian
- Cynnal pellter o 2m ar gyfer staff
- Awyru holl barthau'r Ysgol fel egwyddor sylfaenol ( Plant i ddod a digon o ddillad twym)
- Cadw at y drefn Un Ffordd
- Byrddau yn wynebu'r blaen yn ystafelloedd dosbarth
- Dim gwasanaethau blwyddyn / ysgol gyfan i'w cynnal

Os bydd disgybl yn arddangos symptomau ar y safle, byddant yn cael eu cludo i Ystafell Ynysu a bydd gofyn i rieni gasglu eu plant yn syth. Byddwn yn cydweithio gyda'r Bwrdd Iechyd Lleol ac yn cyfrannu at gyfundrefn Profi, Olrhain, ac Amddiffyn Iechyd Cymru os bydd achosion o Covid-19 ar y safle.

**Pwynt Ychwanegol**

- Bydd disgwyl i ddisgyblion a myfyrwyr i ddefnyddio'r **toiledau** canlynol yn ystod y dydd:
  Blwyddyn 7 - Dyniaethau
  Blwyddyn 8 - Saesneg
  Blwyddyn 9 - Prif Doiledau
  Blwyddyn 10 - Gampfa
  Blwyddyn 11 - Bloc Chweched
  Blwyddyn 12/13 - Busnes

Wrth reswm, mewn argyfwng bydd modd i unrhyw ddisgybl wneud defnydd o'r cyfleusterau sydd fwyaf cyfleus iddyn nhw.

**Disgyblion yn Teithio i'r Ysgol**

- Bydd mygydau yn angenrheidiol i'w gwisgo ar y bysus

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk

- Ni fydd ymbellhau cymdeithasol ar y byses, ac eithrio o'r gyrrwr
- Bydd capasiti llawn ar y bysus a fydd yn cludo plant i'r Ysgol

**Gwersi**

- Addysgir dosbarthiadau llawn – bydd dim rhannu i is-grwpiau
- Bydd capasiti stafelloedd yn ôl i'r arfer (cyn Mawrth 23)
- Staff i aros ar flaen y dosbarth wrth addysgu
- Byrddau yn wynebu'r blaen yn yr Ystafell Ddosbarth.
- Os bydd newid disgyblion mewn stafell - bydd glanhau byrddau a chadeiriau o dan gyfarwyddyd athro yn unol â threfn Gorffennaf.
- Dim gwersi ymarferol Ymarfer Corff i CA3 am y cyfnod cyntaf. Ffocws ar Les ac Iechyd yn y gwersi
- Bydd Arlwyo / Celf / DT / Drama a Cherdd yn CA3 yn addysgu mewn stafelloedd i ffwrdd o'r adnoddau arbenigol sydd yn eu hadrannau
- Bydd modd i staff ddosbarthu adnoddau a llyfrau gan ddefnyddio menig.
- Bydd modd derbyn gwaith ysgrifenedig mewn llyfrau neu ar bapur - defnyddio menyg i gasglu.
- Bydd anogaeth i gyflawni gwaith dosbarth/cartref yn electronig pan fo hynny'n bosib.
- Dim rhannu adnoddau rhwng disgyblion
- Gobeithir ehangu BYOD (Bring Your Own Devices) i CA4 yn gynnar yn y Tymor - croeso i ddisgyblion ddod a'u dyfeisiadau gyda nhw i gyflawni gwaith yn y dosbarth.
- Bydd glanhau a diheintio offer ymarferol cyn ac ar ôl eu defnyddio
- Bydd awyru yn angenrheidiol ym mhob ystafell ddysgu - ffenestri a drysau ar agor. Angen gwisgo cot a dillad ychwanegol os yn oer

**Mygydau**

Bydd disgwyl i ddisgyblion **wisgo mygydau ar y bysus** ysgol neu'r bysus cyhoeddus wrth deithio nôl ac ymlaen i'r Ysgol fore a nos, ond **ni fydd angen iddynt eu gwisgo tra ar y safle.** Bydd yn rhaid felly iddynt dynnu'r mygydau bant **yn ddiogel** wrth gyrraedd y safle ar ddechrau'r dydd, a'u gosod nôl arno i fynd adref ar y bysus. Byddwn yn parhau i adolygu'r sefyllfa yn feunyddiol ac yn parhau i asesu'r risg mewn gwahanol ardaloedd o'r Ysgol ar wahanol adegau.

**Amser Cinio**

Bydd yr Amser Cinio i Flwyddyn 7, 8, a 9 o 1:30pm tan 2:20pm, tra bod Blwyddyn 10 i 13 rhwng 12:40pm a 1:30pm. Bydd angen i chi drafod goblygiadau'r newid gyda'ch plant ym Mlwyddyn 7 i 9, er mwyn iddynt fwyta bwyd yn yr Ysgol ar yr adegau sydd fwyaf buddiol iddynt. Bydd y trefniant

newydd yn sicrhau nad oes gormod o blant yn yr ardaloedd chwarae yn ystod y ddau amser cinio, oherwydd diffyg gofod wrth i'r gwaith adeiladu fyned rhagddo.

**Gwisg Ysgol**

Disgwylir i bob disgybl a myfyriwr gydymffurfio a gofynion y wisg ysgol. Mae'r wisg Ysgol yn cynnwys trowsus ysgol du gydag esgidiau ysgol du plaen, a chrys polo a siwmper yr Ysgol. Atgoffwn rieni yn garedig nad yw jîns na 'leggings' yn dderbyniol fel trowsus ysgol, ac nad yw sgidiau hamdden yn cydymffurfio â chod gwisg yr Ysgol.

**Gwyliau Ysgol a Diwrnodau HMS ar gyfer 2020-21**

Isod mae manylion y gwyliau a'r diwrnodau HMS ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf i'ch helpu chi gyda'ch cynllunio. Bydd calendr llawn yn amlinellu dyddiadau a digwyddiadau allweddol eraill gyda chi ym mis Medi.

| **Gwyliau 2020-21** | |
|---|---|
| Toriad Hanner Tymor 1 | Dydd Llun 26 Hydref - Dydd Gwener 30 Hydref 2020 |
| Gwyliau'r Nadolig | Dydd Mercher 23 Rhagfyr 2020 - Dydd Gwener 1 Ionawr 2021 |
| Toriad Hanner Tymor 2 | Dydd Llun 15 Chwefror - Dydd Gwener 19 Chwefror 2021 |
| Gwyliau'r Pasg | Dydd Llun 29 Mawrth - Dydd Gwener 9 Ebrill 2021 |
| Gŵyl y Banc | Dydd Llun 3 Mai 2021 |
| Toriad Hanner Tymor 3 | Dydd Llun 31 Mai - Dydd Gwener 4 Mehefin 2021 |
| Gwyliau'r Haf | Dydd Llun 19 Gorffennaf - Dydd Mercher 1 Medi 2021 |

| **Dyddiau HMS 2020-21** |
|---|
| HMS 1 Dydd Gwener 23 Hydref 2020<br>HMS 2 Dydd Llun 4 Ionawr 2021<br>HMS 3 Dydd Llun 12 Chwefror 2021<br>HMS 4 Dydd Gwener 8 Gorffennaf 2021<br>HMS 5 ac HMS 6 Dyddiadau i'w cadarnhau |

Mae'n bosib bod heriau eraill i ni fel cymuned ar y gorwel, ond wrth i ni gefnogi ein gilydd, mi wnawn ni lwyddo i greu a chynnal awyrgylch o fwynhad wrth i'n disgyblion ddychwelyd mewn modd ystyrlon i'r stafell ddosbarth, wedi iddynt gael eu hamddifadu o'r profiad am gyhyd.

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk

Gwobr Cwricwlwm Ysgolion Schools Curriculum Award
Heartbeat Award Gwobr Curiad Calon
The Dyslexia Friendly School Standards
SportsMarc
Investors in People | Buddsoddwyr Mewn Pobl
We Are A... Fairtrade School Rydyn Ni'n Ysgol... Masnach Deg

Ysgol Gyfun Gŵyr

Gorau byw cyd-fyw

Bu arweiniad a chefnogaeth y **Corff Llywodraethol** yn hynod yn ystod cyfnod Covid-19, ac mae Llywodraethwyr wedi cytuno ar y camau yr wyf yn amlinellu wrth i ni ddychwelyd i'r Ysgol. Diolch am eich cefnogaeth a'ch amynedd. Rydym yn edrych ymlaen at y flwyddyn ysgol newydd ac yn adnewyddu ein partneriaeth cartref-ysgol.

Yr eiddoch yn gywir,

Pennaeth

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk

Ysgol Gyfun Gŵyr
Gorau byw cyd-fyw

29 August 2020

Dear Parent / Carer,

We hope you and your children enjoyed the holidays and are ready for the challenges of a new chapter as a School.

As we approach the start of another academic year, I would like to thank the school community for its support, especially over the last six months. Ysgol Gyfun Gwyr's extended family of pupils, staff, parents and carers will, I'm sure, continue to support each other during the 2020-21 school year.

**Building work**
Kier Construction has already transformed the landscape of the School's playing fields in preparation for the construction of the new MUGA and the installation of 2G and 3G pitches, facilities that will be ready for use by Christmas. The foundations and basic framework for the teaching block and the new canteen / kitchen will be in place by the end of September. We very much look forward to take possession of the sports facilities by January and to take advantage of the fantastic opportunities these resurces will offer our pupils

**GCSE and A Level results**
Thank you very much to you and your children for your co-operation in collecting **A / AS Level** results for **Years 12 and 13** on **Thursday 13 August**, and **GCSE** for **Year 11** on **Thursday 20 August 2020**. All students in Year 13 achieved the goal and have moved on to employment or university, and a very healthy 90 of Year 11 plan to return to the Sixth Form.

**Transition and Induction**
We look forward to welcoming 190 pupils to **Year 7**, and will use the first two days (**3rd and 4th September)** to introduce the pupils to the most important elements of Ysgol Gyfun Gwyr's life, and to allow them to attend some of their first formal lessons on the School site.
Our **Sixth Form** students, about 180 of them, will also be joining us on site on **September 3** and **September 4 -** this will allow us to process their options as they begin their new courses.

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk

Gwobr Cwricwlwm Ysgolion Schools Curriculum Award
Heartbeat Award Gwobr Curiad Calon
The Dyslexia Friendly School Standards
NPFA SportsMarc
INVESTORS IN PEOPLE | BUDDSODDWYR MEWN POBL
We Are A ... Fairtrade School Rydyn Ni'n Ysgol... Masnach Deg

Ysgol Gyfun Gŵyr
Gorau byw cyd-fyw

**Arrangements for Start of Term**
We realise that our priority as a School is to reconnect with pupils in a real classroom environment - this is by far the best way to support our children's pastoral and academic needs. We intend to mitigate any risks arising from this in light of the pandemic. **Attendance at the School will be compulsory for pupils from 14th September.**

**1 September and 2 September** will be New Term Preparation Days. School staff will receive training and the opportunity to reorganise their rooms, and prepare resources, as they face the challenges of the new term.

We anticipate that the September return to school for Ysgol Gyfun Gwyr pupils will be as follows:

**Thursday 3 September Year 7 and Years 12 + 13** - Induction
**Friday 4 September Year 7 and Years 12 + 13** - Induction
**Monday 7 September Year 11** joins Years 7, 12, 13
**Tuesday 8th September Year 10** joins Years 7, 11, 12, 13
**Wednesday 9 September Year 9** joins Years 7, 10, 11, 12, 13
**Thursday 10 September Year 8** joins Years 7, 9, 10, 11, 12, 13 (All Back in School)

The details of 7 September - 10 September differ from that shared with parents in July, and reflects the School's desire to induct and establish each Year on the School site in turn.
For the first few weeks of term, we have allocated an area in the School to **Year 7 (Humanities), Year 8 (English Department**) and **Year 9 (Welsh Department).** All the lessons of these years will be held in these areas of the School throughout the day, and pupils will be expected to remain in these areas and the surrounding area on site. These pupils will move to their next lesson within the 'zone' following the one-way system.

We realise that establishing three centres for **Years 7, 8, and 9** will limit their experiences in the short term, but we aim to maintain and develop enjoyable and challenging lessons that will enable the children to revel and extend their horizons in light of the forthcoming New Curriculum.

**Year 10, Year 11, Year 12** and **Year 13** lessons will be held across the School. This will allow them to access specialist resources as required.

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk

Ysgol Gyfun Gŵyr
Gorau byw cyd-fyw

**Canteen**
The Canteen will be closed for the first two weeks. Every child will be expected to bring a packed lunch and plenty of drink for the whole day with them on a daily basis. The water fountains will not be available to pupils.
Due to the fact that our Canteen is cash only, we are considering changing our system to enable parents and pupils to pay and order food remotely, without the use of cash. More details to follow.

**Reducing risk on site**
As we return to the site, we will continue to implement many practices that are going to reduce the risk of danger Covid - 19
• Nobody with symptoms (high temperature / new cough / change in sense of smell or taste) to come on the School site. Pupils with symptoms are asked to stay at home and contact the local Health Board for a Covid Test.
• Frequent hand washing
• Implementing appropriate hygiene measures if sneezing
• Maintaining a distance of 2m for staff
• Ventilation of all School zones as a basic principle (Children - bring plenty of warm clothing)
• Adhere to the One Way system as we move around school.
• Front facing tables in classrooms
• No year / whole school assemblies to be held

If a pupil exhibits symptoms on site, they will be taken to an Isolation Room and parents will be asked to collect their children immediately. We will work with the Local Health Board and contribute to the Welsh Health Testing, Tracking and Protecting system in the event of Covid-19 onsite.

**Extra Point**
Pupils and students will be expected to use the toilets in the following locations during the day:
Year 7 - Humanities
Year 8 - English
Year 9 - Main Toilets
Year 10 – Sports Hall
Year 11 - Sixth Form Block
Year 12/13 - Business

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk

Gwobr Cwricwlwm Ysgolion
Schools Curriculum Award
Heartbeat Award Gwobr Curiad Calon
The Dyslexia Friendly School Standards
SportsMarc
INVESTORS IN PEOPLE | BUDDSODDWYR MEWN POBL
We Are A... Fairtrade School Rydyn Ni'n Ysgol... Masnach Deg

Ysgol Gyfun Gŵyr
Gorau byw cyd-fyw

Of course, in an emergency, any pupil can make use of the facilities that are most convenient to them.

**Pupils Travelling to School**

- **Masks** will be necessary to wear on the buses
- There will be **no social distancing** on the buses, except from the driver
- There will be **full capacity** on the buses transporting children to School

**Lessons**

- Whole classes will be taught together - there will be no splitting of classes
- Room capacity will be back to normal (before March 23)
- Staff to remain at the front of the class when teaching
- Front facing tables in the Classroom.
- If there is a change of pupils in a room – the cleaning of tables and chairs will be undertaken on the instructions of teachers in accordance with the procedures in July.
- No PE lessons for KS3 for the first few weeks. Focus on Wellbeing and Health
- Catering / Art / DT / Drama and Music at KS3 will teach in rooms away from the specialist resources in their classrooms
- Staff will be able to distribute resources and books using gloves.
- Written work can be accepted in books or on paper - gloves used to collect.
- There will be encouragement to complete class / home work electronically wherever possible.
- No sharing of resources between pupils
- It is hoped to extend BYOD (Bring Your Own Devices) to KS4 early in the Term - pupils are welcome to bring their devices with them to carry out classroom work.
- There will be cleaning and disinfection of practical equipment before and after use
- All teaching rooms will require ventilation - windows and doors open. Need to wear extra coat and clothing if cold

**Masks**

Pupils will be expected to wear masks on school or public buses when travelling to and from School in the morning and evening, but will not be required to wear them while on site. They will therefore have to remove the masks safely on arrival at the site at the beginning of the day, and place them back on the way home on the buses. We will continue to review the situation on a daily basis and continue to assess the risk in different areas of the School at different times.

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk

Gwobr Cwricwlwm Ysgolion Schools Curriculum Award
Heartbeat Award Gwobr Curiad Calon
The Dyslexia Friendly School Standards
SportsMarc
INVESTORS IN PEOPLE | BUDDSODDWYR MEWN POBL
We Are A ... Fairtrade School Rydyn Ni'n Ysgol... Masnach Deg

Ysgol Gyfun Gŵyr
Gorau byw cyd-fyw

**Lunch time**
Lunchtime for Years 7, 8, and 9 will be from 1:30 pm to 2:20 pm, while Years 10 to 13 will be between 12:40 pm and 1:30 pm. You will need to discuss the implications of the change with your children in Years 7 to 9, so that they can eat food at School at the times that are most beneficial to them. The new arrangement will ensure that there are not too many children in the play areas during both lunchtimes, due to lack of space as construction on the School site continues.

**School uniform**
All pupils and students are expected to conform to the requirements of the school uniform. The school uniform consists of black school trousers with plain black school shoes, and a school polo shirt and jumper. Parents are kindly reminded that jeans and leggings are not acceptable as school trousers, and that leisure shoes / trainers do not comply with the School's dress code.

**School Holidays and INSET Days for 2020-21**
Below are details of the holidays and INSET days for the next academic year to help you with your planning. A full calendar outlining key dates and other events will be with you during September.

| **Holidays 2020-21** | |
|---|---|
| Half Term Break 1 | Monday 26 October – Friday 30 October 2020 |
| Christmas Holiday | Wednesday 23 December 2020 - Friday 1 January 2021 |
| Half Term Break 2 | Monday 15 February – Friday 19 February 2021 |
| Easter Holiday | Monday 29 March – Friday 9 April 2021 |
| Bank Holiday | Monday 3 May 2021 |
| Half Term Break 3 | Monday 31 May – Friday 4 June 2021 |
| Summer Holidays | Monday 19 July – Wednesday 1 September 2021 |

| **INSET Days 2020-21** | |
|---|---|
| INSET 1 | Friday 23 October 2020 |
| INSET 2 | Monday 4 January 2021 |
| INSET 3 | Monday 12 February 2021 |
| INSET 4 | Friday 8 July 2021 |
| INSET 5 and 6 | Dates not finalised |

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk

Gwobr Cwricwlwm Ysgolion
Schools Curriculum Award
Heartbeat Award Gwobr Curiad Calon
The Dyslexia Friendly School Standards
NPFA SportsMarc
Investors in People | Buddsoddwyr Mewn Pobl
We Are A... Fairtrade School Rydyn Ni'n Ysgol... Masnach Deg

Ysgol Gyfun Gŵyr

Gorau byw cyd-fyw

There may be further challenges for us as a community on the horizon, but as we support each other, we will succeed in creating and maintaining an atmosphere of enjoyment as our pupils make a meaningful return to the classroom, having been deprived of the experience for so long.

The leadership and support of the **Governing Body** has been much appreciated during the Covid-19 period, and Governors have agreed the steps to the steps that I have outlined on our return to School.

Thank you for your support and patience. We are looking forward to the new school year and renewing our home-school partnership.

Yours faithfully,

Head

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk